**Cofnodion cyfarfod Pwyllgorau Cynllunio, Cyllid a Materion Cyffredinol a gynhaliwyd Nos Lun, Medi 8fed 2014 am 7 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.**

**Presennol:** Cynghorwyr Raymond Bartley, Margaret Bowe, Rob Parkes, Gaynor Morgan Rees, Medwyn Williams, Geraint Williams, Colin Hughes, Colin L Hughes, Brian Davies, Roy Tickle, Mark Young, Gaynor Wood a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cyng Shereen Lunt,

**Arsylwi:** Cynghorydd Sir Gwyneth Kensler.

Cadeiriwyd Pwyllgorau Cyllid a Materion Cyffredinol gan y Cyng Raymond Bartley gyda'r Cyng Margaret Bowe yn cadeirio'r Pwyllgor Cynllunio.

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod cyntaf yn dilyn egwyl dros yr haf.

**77. Datgan Diddordeb Personol:** Derbyniwyd y datganiadau canlynol:

(1) Cyng Raymond Bartley – holl faterion oedd yn berthnasol i Gyngor Sir Ddinbych
(2) Cyng Colin L Hughes – eitem agenda C1(3) – gohebiaeth – Victim Support
(3) Cyng Rob Parkes – eitem agenda A1(10) – cynllunio – Tir ger 43 Lyf Lôn, Dinbych.
(4) Cyng Geraint Williams - holl faterion oedd yn berthnasol i Gyngor Sir Ddinbych
(5) Cyng Margaret Bowe – eitem agenda A1(10) – cynllunio – Tir ger 43 Lyf Lôn, Dinbych.

A. <u>Pwyllgor Cynllunio:</u>

**78.** (1) **Ceisiadau am ganiatâd cynllunio.**

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i beidio â gwrthwynebu'r ceisiadau canlynol am ganiatâd cynllunio

(1) Cyfnewidfa Teleffon, Lôn Postws.
(2) Pen y Cae, Bodeiliog Road
(3) 23, Dalar Wen
(4) Palmant tu allan i Lyfrgell Dinbych
(5) Co-op, 26, Stryd Fawr – 2 gais
(6) Lidl, 89, Stryd y Dyffryn
(7) Tir oddi ar Lôn Green
(8) 15, Lôn Swan – 2 gais
(9) Tir ger 43, Lyf Lôn

Ynglŷn â'r cais cynllunio a dderbyniwyd ar gyfer Cae Gwyn, Ffordd yr Wyddgrug mynegwyd pryderon difrifol ynglŷn â'r fynedfa i ac oddi wrth y safle o Ffordd yr Wyddgrug oherwydd y cynnydd mewn busnes y byddai'r safle yn ei gynhyrchu. Hysbyswyd y cyfarfod fod pwyllgor cynllunio'r sir wedi gyrru'r cais yn ôl i'r ymgeisydd i ystyried ymhellach. Oherwydd hyn cytunwyd i adael y cais ar y bwrdd.

(2) Materion Cynllunio eraill: (a) Nodwyd pedair tystysgrif yn caniatáu caniatâd cynllunio.
(b) E-bost oddi wrth Glyn Evans, Sustrans Cymru ynglŷn â'r llwybr beicio newydd. Roedd yr e-bost yn gofyn i'r cyngor ail ystyried y penderfyniad a wnaed ar Orffennaf 28ain. Atgoffwyd y cyfarfod o rif 15 o reolau sefydlog y cyngor oedd yn dweud na ellir gwyrdroi penderfyniad y cyngor cyn chwe mis. Cafwyd cryn drafodaeth ar y mater a derbyniwyd nifer o sylwadau yn cynnwys geiriau nerthol a chafwyd rhywfaint o wrthdaro rhwng rhai aelodau. Cynigwyd cynnig i wahodd Mr Evans i gyfarfod a'r cyngor ac i'r cyngor ailymweld a'r cais cynllunio. Galwyd am bleidlais a

gofnodwyd. Pleidleisiodd y Cyng Geraint Williams, Colin Hughes, Gaynor Morgan Rees a Medwyn Williams o blaid y cynnig. Pleidleisiodd y Cyng Rob Parkes, Margaret Bowe, Colin L Hughes, Gaynor Wood, Mark Yountg, Brian Davies a Roy Tickle yn erbyn y cynnig. Ymatalodd y Cyng Raymond Bartley ei bleidlais. Collwyd y cynnig.
(c) Nodwyd y llythyr a dderbyniwyd oddi wrth adran cynllunio CSDd ar sut oedd delio a chwynion ynglŷn â thorri rheolaeth cynllunio.

**B. Pwyllgor Cyllid:**

**79. Cyfrifon:** 1. Cytunwyd i dalu'r cyfrifon canlynol a dderbyniwyd:

| | | | |
|---|---|---|---|
| (1) | Zen Internet – darpariaeth ADSL (Medi)<br>(rhif siec 005448) | - | £18.37 |
| (2) | ADT – contract cynnal a chadw CCTV Medi 2014 – Medi 2015<br>(rhif siec 005449) | - | £1,476.79 |
| (3) | Sodexo – cynnal a chadw gardd Dr E P (Awst)<br>(rhif siec. 005450) | - | £605.88 |
| (3) | Catalyst Systems – Toner ar gyfer argraffydd yr archif gymunedol<br>(rhif siec 005451 | - | £100.80 |

Cyfanswm taliadau: £2,201.84.

2. Nodwyd adroddiadau ariannol cyfnodau **1.4.13 - 30.6.14 a 1.4.14 - 31.8.14**

3. Unrhyw faterion ariannol eraill: (1) Nodwyd a chymeradwywyd rhestr taliadau a wnaed gan glerc y dref / swyddog cyllid yn ystod y cyfnod Gorffennaf 29ain - Medi 8fed 2014 yn unol â chofnod 80(2)
(2) Ffurflen Flynyddol 2013 / 2014: Dywedodd clerc y dref y derbyniwyd yn ôl y ffurflen flynyddol oddi wrth yr archwilydd allanol gydag adroddiad oedd yn dweud nad oedd unrhyw fater wedi dod i sylw'r archwilydd allanol oedd yn mynegi pryder nad oedd deddfwriaeth berthnasol a gofynion rheoli wedi eu bodloni. Roedd yr adroddiad yn cwblhau'r flwyddyn ariannol 2013/2014. Gofynnodd i'r cadeirydd fod diolch y cyngor i glerc y dref am ei holl waith caled yn cael ei gofnodi.
(3) Nodwyd derbyn arian yn y swm o £28.10 (sef y balans cau) a drosglwyddwyd gan Henry Williams ar ran Grŵp Bowlio Dan Do oedd bellach wedi peidio â bod.
(4) Ystyriwyd y dyfynbris a dderbyniwyd oddi wrth Goleuadau Strydoedd Sir Ddinbych ynglŷn â chytundeb goleuadau Nadolig 2014. Derbyniwyd y dyfynbris yn y swm o £9,750 & TAW.
(5) Ystyriwyd y dyfynbris wedi ei adolygu a dderbyniwyd ar gyfer setiau o oleuadau Nadolig newydd ar gyfer Coeden Nadolig cylchfan Parc Myddleton. Derbyniwyd y dyfynbris yn y swm o £2,191.38 & TAW.
(6) Nodwyd a derbyniwyd y llythyr a dderbyniwyd oddi wrth Swyddfa Archwilio Cymru oedd yn dweud y byddai swm o £30 yn cael ei dalu i bob cyngor tref a chymuned yng Nghymru.
(7) Cadarnhaodd clerc y dref fod copïau o'r cyfrifon blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2013/2014 wedi eu dosbarthu i bob aelod er gwybodaeth.

**C. Pwyllgor Materion Cyffredinol:**

**80. Llythyron, E-byst a Hysbysiadau:** (1) Penderfynwyd nodi dwy eitem o ohebiaeth a dderbyniwyd.

2. Cytunwyd ymhellach i nodi a gweithredu fel bod angen ar y canlynol:

(1) E-bost oddi wrth Arolygydd Diogelwch Cymunedol Heddlu Gogledd Cymru ynglŷn â diogelu Cofgolofnau Rhyfel. Cytunwyd i'r cyngor fod yn ymglymedig a'r cynllun

(2) Cyfeiriwyd y llythyrau a dderbyniwyd oddi wrth (a) Victim Support a (b) Shelter Cymru at yr is-bwyllgor cymorthdaliadau.

(3) E-bost oddi wrth Jessica Griffiths yn chwilio am waith i lwyfannu digwyddiadau yn Ninbych. Dywedwyd fod Ms Griffiths wedi gwneud gwaith ardderchog yn hyrwyddo a threfnu digwyddiadau ym Mhrestatyn. Yn anffodus nid oedd gan y cyngor tref yr arian angenrheidiol i gyflogi Ms Griffiths. Cytunwyd i gydnabod yr e-bost ac i hysbysu Ms Griffiths nad oedd gan y cyngor yr arian perthnasol i'w chyflogi.

(4) Cyfarfod Blynyddol Menter iaith Sir Ddinbych yng Nghorwen Medi'r 23ain 2014 – y Cyng Mark Young yn mynychu.

(5) E-bost oddi wrth Steve Tomlinson yn chwilio am waith fel peintiwr ac addurnwr. Cytunwyd i nodi'r e-bost ac i hysbysu Mr Tomlinson nad oedd y cyngor yn ymgymryd ag unrhyw waith o'r fath.

(6) E-bost oddi wrth Nia Williams yn gofyn am barcio am ddim dydd Sadwrn Hydref 4ydd ar gyfer Gŵyl Eirin Dinbych - caniatawyd y cais.

**81. Cofnodion / Adroddiadau Cyfarfodydd is bwyllgorau'r cyngor.** Nid oedd unrhyw gofnodion / adroddiadau

**82. Adroddiadau**: (1) Grŵp Coffau y Rhyfel Byd Cyntaf. Ystyriwyd a derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig clerc y dref.

(2) Cyfarfod ynglŷn ag Arwyddion ar yr A55 ar gyfer Dyffryn Clwyd. Cafwyd adroddiad gan glerc y dref ar gyfarfod diweddar a alwyd gan Ann Jones AC. Roedd cynrychiolwyr o GSDd, Cynghorau Tref Dinbych, Rhuthun a Llanelwy, Chris Ruane AS a PhTGC yn bresennol yn y cyfarfod yn siambr y cyngor. Bu i'r cais a'r cynnig blaenorol fod yn aflwyddiannus. Roedd meini prawf newydd bellach mewn bodolaeth. Deallwyd fod y Gweinidog yn gefnogol. Cytunodd y cyfarfod i Peter Lea (CSDd) ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ganfod os fyddai'r cynnig gwreiddiol, os ydyw yn cael ei ail gynnig, ac yng ngolau'r meini prawf newydd, yn methu a hefyd i Ann Jones AC ysgrifennu at Ymweld â Chymru am eglurhad a mewnbwn ac i gyfarfod a grŵp yr A55. Cyfarfod pellach i'w drefnu.

(3) Symposiwm Trefi Caerog Ewropeaidd. Ystyriwyd a derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig clerc y dref.

Nid oedd unrhyw adroddiadau eraill.

**83. Gardd Goffa Dr Evan Pierce -** Cyfeiriodd clerc y dref at yr e-byst a dderbyniwyd oddi wrth Cae Glas oedd yn cadarnhau nad oeddynt yn medru cloi ac agor y giât. Diolchwyd i'r Cyng Colin Hughes am gamu i mewn i gloi ac agor y giât a hel sbwriel. Dywedodd y Cyng Hughes fod nifer o broblemau ynghlwm ac ymhelaethodd ar y mater. Roedd y Cyng Hughes o'r farn y dylid adolygu'r oriau cau ac agor. Aeth y Cyng Hughes ymlaen i awgrymu fod y cyngor yn cysylltu â Mr Ernie Martin i weld os fyddai Mr Martin a diddordeb mewn cloi ac agor y giât a hel sbwriel ac os oedd â diddordeb i ymofyn faint o dal fyddai ei angen - cytunwyd a hyn. Dywedodd clerc y dref ei fod wedi derbyn cwyn oddi wth y cyhoedd ynglŷn â sbwriel yn yr ardd. Derbyniwyd dyfynbris oddi wrth GSDd i ddarparu a gosod bin sbwriel yn yr ardd yn y swm o £575 oedd hefyd yn dweud y byddai'n cael ei ychwanegu at y rownd i'w wagu. Derbyniwyd y dyfynbris (yn unfrydol). Trafodwyd lleoliad y bin a chytunwyd yn y diwedd i'w leoli ar ochor chwith y lawnt wrth edrych o gyfeiriad Stryd y Dyffryn. Cytunwyd ymhellach i ysgrifennu at Lidl i ofyn i'r cwmni noddi'r bin gan mai pryniant nwyddau yn y siop oedd yn achosi rhan fwyaf o'r sbwriel yn yr ardd.

**84. Gwasanaethau Datganoledig.** Dywedodd clerc y dref ei fod wedi cyfarfod a dau swyddog o GSDd a bod y cyngor tref yn cael ei rhoddi ar rybudd y byddai mwy o wybodaeth fanwl ynglŷn â'r pecynnau o wasanaethau datganoledig a fydd i'w trafod gyda chynghorau tref a chymuned ar gael yn dilyn penderfyniad y cabinet y mis nesaf. Cyfeiriodd clerc y dref hefyd at y llythyr a dderbyniwyd oddi wrth arweinydd CSDd a gylchredwyd. Aeth clerc y dref ymlaen i ddweud mai'r gobaith oedd y

byddai trafodaethau gyda CSDd ar wasanaethau datganoledig wedi eu cwblhau cyn y cyfarfod i drafod y gyllideb ym mis Ionawr. Roedd yn debygol y byddai unrhyw wasanaeth datganoledig a ymgymerwyd gan y cyngor yn golygu cynnydd yn yr archebiant neu doriad yn ôl ar y gwariant presennol. Byddai pob pynt ychwanegol ar yr archebiant ond yn codi tua £3,300 ychwanegol mewn incwm. Bydd angen hefyd i ystyried trethiant dwbl. Ar hyn o bryd roedd gan Ddinbych yr ail neu drydydd archebiant uchaf o fewn y sir. Trafodwyd y mater a derbyniwyd nifer o sylwadau. Dywedwyd y dylai'r cyngor tref, mewn amser, o bosib ymgynghori a'r cyhoedd. Cytunwyd mai'r cyfan a ellir ei wneud ar hyn o bryd oedd cadw gorchwyl gwylio.

**85. Darlithoedd Treftadaeth 2015.** Atgoffodd clerc y dref ei fod yn gynharach yn y flwyddyn wedi dweud nad oedd yn barod, oherwydd diffyg cefnogaeth gan y cynghorwyr, i drefnu cyfres arall o ddarlithoedd treftadaeth. Pa fodd bynnag, roedd cryn bwysau gan y cyhoedd am gyfres arall. Cafwyd trafodaeth ddidwyll ar y mater. **Penderfynwyd** (11 o blaid ac un bleidlais a ataliwyd) **fod cyfres o ddarlithoedd treftadaeth yn cael eu trefnu yn ystod 2015.**

*Yn y man yma symudodd y cyfarfod i gyngor llawn o dan gadeiryddiaeth y Maer y Cyng Rob Parkes.*

**86 Seddau Gwag y Cyngor: (1) Ward Uchaf -** Dywedodd clerc y dref fod pedwar cais wedi ei dderbyn ar gyfer y sedd wag i'w llenwi drwy gyfethol. Roedd CV pob ymgeisydd wedi eu nodi fel cyfrinachol a'u rhannu i bob aelod o'r cyngor. Ni fu trafodaeth. Cafwyd pleidlais gudd ac etholwyd Catherine Elaine Jones i'w chyfethol ar y cyngor tref.
**(2) Ward Isaf -** Dywedodd clerc y dref, yn dilyn hysbysebu'r sedd wag achlysurol nad oedd CSDd wedi derbyn cais i lenwi'r sedd wag drwy etholiad. Y drefn oedd y byddai'n rhaid i'r cyngor tref lenwi'r sedd wag drwy gyfethol. Cytunwyd i glerc y dref gyhoeddi'r hysbysebion angenrheidiol ar gyfer cyfethol.

*Yn dilyn cwblhau cofnod 86 uchod symudodd y cyfarfod yn ôl i fodd pwyllgor dan gadeiryddiaeth y Cyng Raymond Bartley.*

**87. Materion o Ddiddordeb:** 1. Codwyd y materion canlynol gan yr aelodau a chytunwyd gweithredu lle bo angen:

(1) Derbyniwyd cwyn ynglyn a'r llwybr rhwng Abbey Court ac Ysgol y Parc. Roedd arwydd ar y llwybr yn dweud "dim beicio". I gysylltu â CSDd i ganfod os oedd y gorchymyn yn dal mewn bodolaeth ac os oedd, os dylid ei ddiwygio neu i osod arwydd newydd.
(2) Derbyniwyd cwyn fod sefyllfa waliau Ffordd Ystrad yn ddychrynllyd ac angen eu trwsio a hefyd y wal o amgylch safle cyn Ysbyty Gogledd Cymru yn dangos dirywiad. Roedd yr agwedd tuag at y waliau yn dangos difaterwch ofnadwy.
(3) Cwyn ynglyn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Nghysgod y Graig.
(4) Yr ymosodiad diweddar, a grybwyllwyd ar y rhwydwaith cymdeithasol, ar ŵr gan grŵp o rai ifainc yn ymyl Ysgol Howell. Cytunwyd i wahodd yr Arolygydd yr Heddlu newydd i gyfarfod a'r cyngor.

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 8.40 o'r gloch.

Arwyddwyd:.......................................................................................................(cadeirydd)

Dyddiad:..........................................